

Bwletin Llythrennedd a Rhifedd

Pwrpas y bwletin hwn yw rhoi gwybod i chi am y datblygiadau diweddaraf ym maes Llythrennedd a Rhifedd ac am adnoddau ar draws pob cyfnod allweddol

Croeso i Fwletin Llythrennedd a Rhifedd GwE! Rydym yn gwybod pa mor brysur yw athrawon dosbarth, felly, rydym wedi mynd trwy'r swmp o wybodaeth ac adnoddau sydd ar gael am y blaenoriaethau cenedlaethol hyn â chrib fân er mwyn gwneud bywyd yn haws! Hyderwn y bydd yn ddefnyddiol i chi a byddem yn croesawu unrhyw adborth fel y gallwn deilwra bwletinau'r dyfodol i fodloni eich anghenion.



Trydydd rhifyn Chwefror 2015

Adnoddau- beth sydd ar gael ar-lein?

Llythrennedd

Dwlu Darllen

Mae cyfres fendigedig o lyfrau ffeithiol wedi cael eu cyhoeddi yn ddiweddar gan gwmni Rily -adnodd gwerth chweil ar gyfer datblygu Uwch Sgiliau Darllen yn y Cyfnod Sylfaen a Blynnydoedd 3 a 4. Mae'r gyfres 'Dwlu Darllen' yn cynnwys y llyfrau ar: Y Gofod, Coedwig Law, Riff Cwrel ac Anifeiliaid Peryglus.

Adnoddau Diweddaraf CBAC-Capel Celyn

Mae'r pecyn 'Capel Celyn' nawr ar gael ar wefan CBAC yn hynod ddefnyddiol ar lawr dosbarth. Mae'n cynnwys adnoddau amlygfrwng a thrawsgwricwlaidd i goffau boddi pentref Capel Celyn yn 1965.

<http://resource.download.wjec.co.uk.s3.amazonaws.com/tcg/celyn/index.html>

Rhifedd

The Numeracy Shed www.mathematicshed.com

Rydym eisoes wedi rhannu gwybodaeth am y Literacy Shed ond mae'r Numeracy Shed yn safwe gyda toreth o adnoddau i helpu athrawon gyflwyno mathemateg mewn ffyrdd diddorol a gwahanol.

Beth am drafod y bargeinion siopau? <http://www.mathematicshed.com/maths-shopping-shed.html>

Adnoddau Ymresymu rhifyddol

Mae'r adroddiad NFER 'Adolygiad o Adnoddau Ymresymu Rhifyddol' yn darparu rhestr cyfredol o adnoddau sy'n datblygu sgiliau ymresymu rhifyddol

<http://learning.wales.gov.uk/resources/browse-all/review-of-numerical-reasoning-teaching-resources/?lang=cy>

Beth sy'n newydd ar Dysgu Cymru? [Dysgu Cymru](#)

Cam 1 – Dogfennau i'ch cefnogi

Cwestiynau Cyffredin

Unrhyw bryderon ynghylch y newidiadau a gyflwynir yn 2015?

Mae'r ddogfen isod yn ateb y cwestiynau cyffredin:

<http://dysgu.cymru.gov.uk/resources/browse-all/revised-areas-of-learning-and-programmes-of-study-fao/?lang=cy>

Rhestr o Dermau

Cliciwch ar y linc isod ar gyfer rhestr o dermau sy'n cyd-fynd â'r Meysydd Dysgu a'r Rhaglenni Astudio diwygiedig. Mae'n sicrhau cysondeb a dealltwriaeth o'r termau a ddefnyddir yn y fersiynau diwygiedig:

<http://dysgu.cymru.gov.uk/resources/browse-all/revised-areas-of-learning-and-programmes-of-study-phase-1-literacy-and-numeracy-glossary-of-terms/?lang=cy>

Cyhoeddiadau diweddar ESTYN:

Llythrennedd yng nghyfnod allweddol 3:

Adroddiad interim - Ionawr 2015

Mae'r ddogfen yma yn edrych ar safonau mewn llythrennedd yng nghyfnod allweddol 3 a'r modd y mae detholiad o ysgolion uwchradd wrthi 'n datblygu medrau llythrennedd disgyblion ar draws y cwricwlwm, gyda chyfeiriad penodol at roi'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol ar waith ac effaith ei elfen llythrennedd.

http://www.estyn.gov.uk/cymraeg/doc/Viewer-w/343461_3/Llythrennedd%20yng%20ghyfnod%20allweddol%203-%20Adroddiad%20nterim%20-%20Ionawr%202015/?navmap=30,163



GwE(@GwEGogledCymru)

Adroddiad Blynnyddol ESTYN 2013-2014

Mae Adroddiad Blynnyddol y Prif Arolygydd yn rhoi dadansoddiad a sylwebaeth ar berfformiad addysg a hyfforddiant yng Nghymru:

<http://www.estyn.gov.uk/cymraeg/adroddiad-blynnyddol/adroddiad-blynnyddol-2013-2014/>

Hyfforddiant Ysgolion Cynradd

Meysydd Dysgu a Rhaglenni Astudio

Mae hyfforddiant i gefnogi Uwch Arweinwyr neu Gydlynwyr laith/Llythrennedd a Mathemateg/Rhifedd ysgolion cynradd i gyflwyno'r newidiadau i gydweithwyr wedi ei drefnu.

Gweler isod manylion yr hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg:

Dyddiad	Lleoliad
24.2.15	Plas Tan y Bwlch, Maentwrog
3.3.15	Tŷ Menai, Bangor
5.3.15	Plas Menai, Caernarfon
12.3.15	Glasdir, Llanrwst
17.3.15	Gwesty Beaufort Park, Yr Wyddgrug

Trefn y diwrnod:

Bore – Gwybodaeth Llywodraeth Cymru

Prynhawn- Gweithdai Cynllunio Llythrennedd a Rhifedd

Hyfforddiant Ysgolion Uwchradd

Rhaglenni Astudio CA3

Bydd yr hyfforddiant canlynol yn cael ei gynnal i gefnogi penaethiaid adrannau Cymraeg, Saesneg a Mathemateg:

Llythrennedd

Dyddiad	Cynulleidfa
16/04/15	Penaethiaid Saesneg (Gwynedd, Môn a Chonwy)
21/04/15	Penaethiaid Saesneg (Dinbych, Fflint a Wrecsam)
23/04/15	Penaethiaid Cymraeg

Rhifedd

Dyddiad	Cynulleidfa
17/04/15	Penaethiaid Mathemateg (Saesneg)
24/04/15	Penaethiaid Mathemateg (Cymraeg)

Nodyn atgoffa i bob athro/athrawes dosbarth Derby

Pori Drwy Stori

Bydd dwy danfoniad pellach o adnoddau Pori Drwy Stori yn ystod tymor y gwanwyn. Cuddio 'n' cardiaid chwarae Defaid (i'w ddefnyddio yn ystod hanner tymor mis Chwefror) a Fy adnoddau Llyfr (i'w defnyddio yn nhyr y haf). Y rhain yn cael dosbarthu gyda'i gilydd. Bydd pecynnau Amser Llyfr (Ia-Hw a Hairy Maclary) yn cyrraedd ysgolion ar ôl yr hanner tymor mis Chwefror.

